**YMATEB YSGRIFENEDIG I YMATEB Y PWYLLGOR MENTER A DYSGU I YMGYNGHORIAD NETWORK RAIL AR STRATEGAETH CYMRU AR GYFER Y DEFNYDD O LWYBRAU GAN IEUAN WYN JONES DIRPRWY BRIF WEINIDOG CYMRU A'R GWEINIDOG DROS YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH**

Rwy'n croesawu diddordeb y Pwyllgor yn y ddarpariaeth reilffyrdd a gwelliannau i reilffyrdd. Mae ein hymrwymiadau yn Cymru'n Un yn glir – bydd y Llywodraeth hon yn parhau i gyflawni ar sicrhau gwasanaeth rheilffyrdd i deithwyr yng Nghymru ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain. Rwyf wedi cyhoeddi buddsoddiadau i uwchraddio'r seilwaith ar gyfer y brif lein Cambrian, moderneiddio Gorsaf Casnewydd ailsefydlu Cyffordd Gaer ac ymrwymiad dangosol i raglen o fuddsoddiadau yn Ardal Caerdydd a rhwydwaith y Cymoedd gyda chyllid partneriaeth gan Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth (DfT). Rwy'n amlinellu isod fy ymateb i argymhellion y Pwyllgor.

**Argymhelliad 1 – Rhagolygon Galw**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r rhagdybiaethau a wneir yn y SDLl drafft ynglŷn â'r twf yn y galw gan deithwyr yn y dyfodol, yn enwedig y rhagdybiaeth y gallai'r teithiau cymudo i ardal Caerdydd barhau i gynyddu ar raddfa uwch nag a ragwelwyd yn flaenorol. Mae'n bwysig bod Network Rail, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gweithredwyr Trenau yn gweithio gyda'i gilydd gan fonitro'n flynyddol y newidiadau yn y galw gan deithwyr a diweddaru eu rhagolygon a'u cynlluniau twf yn unol â hynny.

Mae'r Pwyllgor yn bryderus, os bydd y galw gan deithwyr ledled Cymru yn cynyddu 25% neu fwy dros y deng mlynedd nesaf, a 40% neu fwy ar gyfer yr adegau cymudo brig yn ardal Caerdydd, na fydd y rhaglen o welliannau seilwaith a amlinellir yn y SDLl drafft yn ddigonol i ymdopi â'r cynnydd hwn.

Mae'r Pwyllgor yn ceisio sicrwydd gan Network Rail y gellir darparu ar gyfer buddsoddiad ychwanegol yn y seilwaith rheilffyrdd yn ardal SDLl Cymru pe bai angen dros y deng mlynedd nesaf yn wyneb y cynnydd yn y galw.

**Ymateb**

Yn fy ymateb i argymhellion y pwyllgor ar Gynllunio ar gyfer Darpariaeth Reilffordd i'r Dyfodol yn Ionawr 2008, eglurais y rhagolygon galw a amlinellir yn Asesiad Cynllunio Rheilffyrdd Cymru (ACRhC) ac yn natganiad yr Adran Drafnidiaeth, Datganiad Allbwn Lefel Uchel (HLOS).

Nodais fod rhagolygon galw twf uchel wedi'u cynhyrchu er mwyn cymryd i ystyriaeth y duedd gref tuag at dwf ar lwybrau'r Cymoedd i Gaerdydd. Rhoddais gadarnhad y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynllunio ar gyfer twf ar sail y sefyllfa o dwf uchel ar gyfer Caerdydd. Gwneuthum ymrwymiad i barhad monitro galw a modelu ar sail y galw i'r dyfodol. Ymrwymais i gyhoeddi rhagolwg wedi'i ddiweddaru yn y Strategaeth Defnyddio Llwybrau (SDLl) a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu darparu cerbydau digonol i gwrdd â lefel y galw a ragwelir erbyn 2014.

Gallaf yn awr gadarnhau bod y rownd bresennol o ragweld galw y cyfeirir ato yn ymgynghoriad Nework Rail, SDLI wedi symud ymlaen a chyhoeddir y manylion yn fersiwn derfynol y SDLI yn dilyn yr ymgynghoriad, yn ddiweddarach eleni. Deallaf fod y grŵp sy'n cynnwys Nework Rail, DfT, economegwyr a dadansoddwyr Trenau Arriva Cymru, a Thîm Rheilffyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi ystyried tystiolaeth yn awgrymu bod twf yn y Cymoedd wedi parhau'n gryf.

Rwy'n pwysleisio drachefn fy ymrwymiad i ddarparu cerbydau digonol i gwrdd â'r lefel galw a ragwelir yn y cyfnod hyd at 2014 (diwedd Cyfnod Rheoli 4 Network Rail). Cyhoeddwyd 900 o seddi ychwanegol cyfnod brig ar gyfer y Cymoedd erbyn 2104 yn fy Natganiad Cabinet ar 2 Mehefin ar y gwelliannau ar gyfer Caerdydd/Y Cymoedd. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 15 y cant mewn galluoedd dros y sylfaen awr frig a gynhwyswyd yn Natganiad Allbwn Lefel Uwch (HLOS) DfT. Cyhoeddwyd hefyd yn fy Natganiad Cabinet hyd at 1200 o seddi brig ychwanegol i'w darparu gyda gwasanaethau newydd llwybr cyflym ar gyfer Cwm Taf a Rhymni. Cyflwynir y rhain ar ôl 2014, pan fydd eu hangen yn wyneb y galw, a bydd yn cynrychioli cynnydd galluoedd ychwanegol o 30 y cant dros y sylfaen cyfnod brig.

Argymhelliad olaf y Pwyllgor yn y maes hwn yw "ceisio sicrwydd gan Network Rail y gellir cymhwyso buddsoddi ychwanegol yn y seilwaith rheilffyrdd yn ardal SDLI Cymru pe bai angen dros y deng mlynedd nesaf er mwyn darparu ar gyfer lefelau galw uwch".

Mater i Network Rail fydd ymateb ar y pwynt hwn. Ond byddwn yn nodi bod y pecyn a amlinellir yn fy Natganiad Cabinet ar 2 Mehefin yn cynrychioli darpariaeth galluoedd optimwm a phatrwm gwasanaeth i ddarparu'r galluoedd ac amledd o wasanaethau i Heol y Frenhines a Chanol Caerdydd am y tymor canolig rhagweladwy fel y nodwyd gan y Pwyllgor. Ni fydd y gwelliannau hyn yn golygu na cheir uwchraddio yn y dyfodol.

**Argymhelliad 2 – Gwelliannau i Heol y Frenhines Caerdydd.**

**Argymhelliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y SDLI drafft yn cynnwys gwaredu'r cyfyngiad ar alluoedd rhwng Cyffordd Cogan a Heol y Frenhines Caerdydd a chyhoeddi ar y cyd rhwng Network Rail, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Drafnidiaeth raglen gytunedig ar gyfer hyn a gwelliannau eraill i ddarparu ar gyfer 16 o drenau yr awr yn Heol y Frenhines.

Mae'r Pwyllgor, fodd bynnag, yn ystyried y bydd y twf posibl yn y galw am wasanaeth gan deithwyr cymudo, yn enwedig yng ngoleuni blaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau'r ddibyniaeth ar geir, yn golygu y bydd yr angen am bont newydd dros Heol Casnewydd yn parhau i fod yn debygol o fewn y deng mlynedd nesaf ac felly dylid dechrau cynllunio ar gyfer ei hadeiladu.

**Ymateb**

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am groesawu'r pecyn o welliannau a amlinellir yn fy Natganiad Cabinet ar 2 Mehefin.

Mae'r pecyn hwnnw'n darparu'r gwelliannau o ran galluoedd ac amledd ar gyfer Heol y Frenhines a Chanol Caerdydd – fel rwy'n amlinellu uchod – mae'n osgoi'r angen i adeiladu trydydd trac dros bont Heol Casnewydd i'r gogledd o Heol y Frenhines. Nid oes dim yn y pecyn o welliannau a luniwyd ar y cyd nac yn Rhaglen Network Rail ar gyfer Adnewyddu Signalau Ardal Caerdydd yn golygu na fydd gwelliannau i'r bont yn y pen draw, ond nid oes cyfiawnhad ar hyn o bryd i gychwyn ar raglen gynllunio fanwl.

**Argymhelliad 3 – Cludo Nwyddau**

Hoffai'r Pwyllgor weld mwy o bwyslais yn y SDLI ar strategaeth cludo nwyddau Llywodraeth y Cynulliad ac ar yr angen i fuddsoddi mwy yn seilwaith rheilffyrdd Cymru er mwyn symud y modd o gludo nwyddau o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd.

**Ymateb**

Mae'r argymhelliad hwn yn galw am ymateb gan Network Rail.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i drosglwyddo cludo nwyddau o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd yn glir yn Cymru'n Un ac yn Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru. Rwy'n awyddus i'r Consortia rhanbarthol adlewyrchu hyn yn eu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Tîm Rheilffyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau wedi'u diweddaru ar y Grant Cyfleusterau Cludo Nwyddau ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
http://new.wales.gov.uk/topics/transport/rail/1557566/?lang=cy
ac mae'n barod iawn i ymateb i bob ymholiad gan weithredwyr sydd â diddordeb.

**Argymhelliad 4 – Y Pwyllgor ar Seilwaith y Rheilffyrdd a Gwella Gwasanaethau i Deithwyr – cynlluniau blaenoriaeth**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y SDLI drafft yn cynnwys mwyafrif y cynlluniau blaenoriaeth a nodwyd gan Bwyllgor yr Ail Gynulliad ar Seilwaith y Rheilffyrdd a Gwella Gwasanaethau i Deithwyr. Hoffai weld fersiwn derfynol y SDLI yn cynnwys amlinelliad clir o restr o gynlluniau i'w datblygu, gan nodi ffynonellau cyllid ac amserlenni ar gyfer eu cwblhau.

Byddai'r Pwyllgor yn annog Network Rail a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ailystyried yr achos dros bumed trên ar Lein Calon Cymru, er mwyn gwella hygyrchedd a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a thwristiaeth.

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn annog y Gweinidog i gyhoeddi rhestr o gynlluniau a gwelliannau gwasanaeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu eu cefnogi mor fuan ag y bo modd ar ôl cyhoeddi'r SDLl terfynol. Dylai hyn gynnwys ymrwymiad clir i ymestyn lein Glyn Ebwy i Gasnewydd yng nghyfnod rheoli 2009-2014.

**Ymateb**

Rwy'n croesawu Strategaeth Defnyddio Llwybrau (SDLl) Cymru mewn egwyddor – mae'n asesiad seiliedig ar alw o alluoedd, mannau cyfyng; mae'n sylwebaeth, ac mewn rhai achosion, yn arfarniad, ar welliannau posibl i'r rheilffyrdd sydd dan ystyriaeth gan randdeiliaid. Mae'n eistedd o dan ACRhC a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae'n rhan o gyfres o adroddiadau SDLl ar gyfer pob rhanbarth reilffordd. Fe'i cynhyrchir gan grŵp rheoli diwydiant rheilffyrdd, ac rwy'n falch bod Tîm Rheilffyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd rhan lawn, a bod y ddogfen ymgynghori yn cydnabod gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Consortia rhanbarthol ac eraill i wella ein rheilffordd.

Mae'n bwysig sylweddoli nad offeryn gwneud penderfyniadau yw'r SDLl o ran gwella rheilffyrdd. Mae'n ddogfen gynllunio dechnegol a'i phwrpas yw cynorthwyo penderfynwyr.

Ymrwymais yn fy ymateb i argymhellion y Pwyllgor ar Gynllunio ar gyfer y Ddarpariaeth Reilffyrdd i'r Dyfodol y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi rhaglen o gynllunio prosiectau buddsoddi mewn rheilffyrdd ar gyfer y dyfodol. Dywedais y byddai hyn yn digwydd ar ôl cwblhau'r SDLl a phan fyddwn mewn sefyllfa i adlewyrchu blaenoriaethau'r Consortia rhanbarthol pan gyhoeddir y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd y rhaglen reilffyrdd hon yn gynwysedig yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a hwn fydd y fforwm priodol ar gyfer amlinellu cynlluniau i'w datblygu, y trefniadau cyllido ac amserlenni. Nid swyddogaeth Network Rail yw hon.

Yn y cyfamser, mae fy swyddogion a'r Consortia mewn trafodaethau â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ynghylch datblygu nifer o gynlluniau, gan fanteisio o bosibl ar y Gronfa Gydgyfeirio.

**Argymhelliad 5 – Gorsafoedd**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynlluniau i wella rhai o'r prif orsafoedd yn ardal SDLl Cymru, ond hefyd yn ystyried bod angen rhaglen fuddsoddi er mwyn gwneud gwelliannau i orsafoedd llai, sydd heb eu staffio.

**Ymateb**

Rwy'n bwriadu gwneud cyhoeddiad manwl ar amryw o gynlluniau i wella gorsafoedd rheilffordd ar y cyd â'r Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd yn ddiweddarach eleni. Yma eto, bydd arian cyfatebol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwella gallu Network Rail i fuddsoddi ac uwchraddio.

**Argymhelliad 6 - Trydaneiddio**

**Argymhelliad**

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi ymchwilio i bosibiliadau trydaneiddio Prif Lein De Cymru o Abertawe a Chaerdydd i Lundain a Chledrau'r Cymoedd.

**Ymateb**

Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth sy'n gyfrifol am y seilwaith rheilffyrdd. Mae DfT wedi gofyn i weithgor o'r diwydiant rheilffyrdd ystyried trydaneiddio mwy o'r rhwydwaith yn y dyfodol ac yn cynllunio'r genhedlaeth nesaf o Drenau Cyflym - yr Intercity Express – mewn moddau pŵer sy'n cynnwys diesel pŵer deuol a thrydan. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymo i leihau allyriadau CO2 a byddwn yn cefnogi'r egwyddor o gynyddu trydaneiddio ar linellau yng Nghymru neu i Gymru oherwydd yr effaith bosibl o ostwng allyriadau. Mae trydaneiddio i'r dyfodol yn cael ei ystyried o dan y Strategaeth Defnyddio Llwybrau ac edrychaf ymlaen at ymgynghoriad Network Rail ar hyn.

**Argymhelliad 7 – Rheilffordd newydd – Llundain i Gaerdydd**

**Argymhelliad**

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi bwriad Network Rail i adolygu'r achos dros adeiladu rheilffordd newydd rhwng Llundain a De Cymru.

**Ymateb**

Mae Network Rail wedi cyhoeddi ei fod wedi comisiynu adolygiad strategol o botensial rheilffyrdd trenau cyflym yn y dyfodol. Bydd yr adolygiad yn ystyried pump o brif lwybrau strategol gan gynnwys y Great Western a Phrif Lein Arfordir y Gorllewin, sy'n ddwy lein bwysig iawn i Gymru. Rwyf wedi cyflwyno fy safbwynt yn glir i Network Rail a DfT ynglŷn â'r angen am welliannau i'r Great Western yn rhan o'r Strategaeth Defnyddio Llwybr y Great Western. Mae hyn yn cynnwys yr angen i leihau amser siwrneiau. Rwyf wedi gofyn i Network Rail a'r DfT am gyfarfod i drafod astudiaeth ar lwybrau newydd rhwng Llundain a De Cymru.